



**Polisi Nofio Ysgolion Cynradd
Primary Schools' Swimming Policy**

Iechyd a Hamdden / Health & Leisure



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pam Dysgu Nofio	5
Nodau Dysgu Nofio	5
Materion sy'n Ymwneud â Dysgu Nofio	7
Nofio – Cwricwlwm Cenedlaethol	9
Gweithgareddau Iechyd, Ffitrwydd a Lles	11
Cyfrifoldebau'r Athro/Athrawes Nofio	13
Cyswllt gydag Ysgolion	15
Cymhorthion Nofio	15
Gweithdrefnau Diogelwch	17
Cymarebau	19
Nofwyr sydd ag Anableddau	21
Iechyd a Glendid	23


Atodiadau

Atodiad 1	Ffurflen hysbysu ynglyn â phroblem feddygol/ymddygiadol
Atodiad 2	Cyngor ar Ferwcas
Atodiad 3	Cyngor ar Impetigo
Atodiad 4	Cyngor ar wisgo sbectol nofio a ffurflen

Contents

Introduction	4
Why Teach Swimming	6
Aims of Swimming Teaching	6
Issues of Swimming Teaching	8
Swimming - National Curriculum	10
Health, Fitness and Well Being Activities	12
The Responsibilities of the Swimming Teacher	14
Liaison with Schools	16
Swimming Aids	16
Safety Procedures	18
Ratios	20
Swimmers with Disabilities	22
Health and Hygiene	24

Appendices

- Appendix 1 Medical/behavioural problem notification form
 - Appendix 2 Verruca Advice
 - Appendix 3 Impetigo Advice
 - Appendix 4 Advice on the wearing of goggles and pro forma
- 

Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y ddogfen bolisi hon gan y Prif Ymgynghorydd Ysgolion a Chynhwysiant a'r Rheolwr Datblygu Chwaraeon yn dilyn ymgynghori ag athrawon nofio sy'n gweithio mewn Canolfannau Chwaraeon a Hamdden, a Phenaethiaid/Athrawon Ysgolion Cynradd Powys.

Mae nofio yn un o gydrannau'r rhaglen astudiaeth ar gyfer Addysg Gorfforol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r ddogfen yn rhoi gwybod i'r rheiny sy'n ymwneud â chyflwyno addysg gorfforol am nodau, gweithdrefnau ac arferion dysgu nofio yn yr ysgol gynradd.

Mae'r ddogfen yn cynnwys fframwaith ar gyfer parhad a dilyniant a fydd yn galluogi disgyblion gyda chefnogaeth dysgu effeithiol i lwyddo fel nofwyr a sicrhau dealltwriaeth drylwyr o ddiogelwch yn y dwr a manteision ymarfer i iechyd a ffitrwydd.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y ddogfen hon i un o'r canlynol:-

Mr. Gareth Oldham,

Rheolwr Datblygu Chwaraeon,
Swyddfeydd Sant Ioan,
Pumffordd, Llandrindod, Powys, LD1 5ES

(Rhif ffôn 01597 827658 / e-bost garetho@powys.gov.uk)

Mr. Ian Roberts,

Prif Ymgynghorydd Ysgolion a Chynhwysiant,
Neuadd Sir Powys,
Llandrindod, Powys, LD1 5LG

(Rhif ffôn 01597 826453 / e-bost ianr@powys.gov.uk)

Introduction

This policy document has been produced by the Principal Advisor: Schools and Inclusion and the Sports Development Manager following consultation with swimming teachers based at Sports and Leisure Centres and Powys Primary Schools Headteachers/Teachers.

Swimming is one of the components of the programme of study for National Curriculum Physical Education.

This document informs those involved with the delivery of physical education about the aims, procedures and practice of the teaching of swimming in the primary school.

The document contains a framework for continuity and progression which will enable pupils when supported by effective teaching to succeed as swimmers and to acquire a thorough understanding of water safety and the benefits of exercise to health and fitness.

Any queries relating to the contents of this document should be directed to either:-

Mr. Gareth Oldham,
Sports Development Manager,
St. Johns Offices,
Five Ways, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5ES

(Tel No. 01597 827658 / e-mail garetho@powys.gov.uk) or

Mr. Ian Roberts,
Principal Advisor: Schools and Inclusion
Powys County Hall,
Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG

(Tel. No. 01597 826453 / e-mail ianr@powys.gov.uk).

Pam Dysgu Nofio?

Iechyd

Mae ymarfer corff yn rheolaidd trwy nofio yn arwain at well iechyd a ffitrwydd.

Cymdeithasol

Gall nofio fod yn hwyl ac yn gymdeithasol. Mae'n weithgaredd y gall yr hen a'r ifanc fel ei gilydd ei fwynhau - gall pobl o bob oed gymryd rhan ar yr un pryd, felly mae'n weithgaredd teuluol delfrydol. Mae llwyddo i nofio yn galluogi pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon eraill, er enghraifft canwio, hwylio, nofio tanddwr, hwylyfyrddio ac ati. Yn ogystal â hyn, mae'n darparu cyfleoedd gyrfa, e.e. gweithio mewn rhai agweddau o'r diwydiant hamdden lle mae gallu nofio'n fedrus yn rhagofyniad.

Cwricwlwm

Mae'n un o gydrannau Rhaglen astudiaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gorfforol.

Nodau Dysgu Nofio

- Galluogi pob disgybl i ddod yn nofiwr medrus ac i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y dŵr.
- Darparu dealltwriaeth o egwyddorion diogelwch yn y dŵr i bob disgybl.
- Annog agwedd bositif tuag at werth cymryd rhan mewn gweithgareddau nofio.
- Darparu dealltwriaeth o fanteision nofio i iechyd a ffitrwydd i bob disgybl.

Why Teach Swimming?

Health

Regular participation in exercise through swimming results in enhanced health and fitness.

Social

Swimming can be fun and sociable. It is an activity that can be enjoyed by young and old alike - all age groups can participate at the same time, thus making it an ideal family activity. Success in swimming enables people to take part in other sports; canoeing, sailing, sub-aqua, wind-surfing, etc. Additionally, it provides career opportunities e.g. employment in some aspects of the leisure industry, for which competent swimming is a prerequisite.

Curriculum

It is one of the components of the National Curriculum Programme of study for Physical Education.

Aims of Swimming Teaching

- To enable all pupils to become competent swimmers and to enjoy a variety of water activities.
- To provide all pupils with an understanding of the principles of water safety.
- To encourage a positive attitude towards the value of taking part in swimming activities.
- To provide all pupils with an understanding of the benefits of swimming to health and fitness.

Materion sy'n Ymwneud â Dysgu Nofio

Dysgu

Mae angen dysgu effeithiol i gyflawni'r nodau uchod, ac fe ddylai ddarparu:

1. Hwyl a phleser i'r holl ddisgyblion,
2. Datblygu hyder, trwy gymryd rhan, a gwneud defnydd llawn o'r cyfleusterau sydd ar gael .
3. Amrediad llawn o brofiadau, gan gynnwys gwthio, gwrthsefyll, arnofio, mynd i mewn i'r dŵr yn ddiogel, sgiliau goroesi, sgiliau achub bywyd sylfaenol a chwaraeon.
4. Cynnig cyfle ar gyfer trafodaethau rhwng athro/athrawes plentyn, a phlant â'i gilydd, gan annog dysgwyr i gymryd rhan yn y broses o Gynllunio, Perfformio a Gwerthuso gyda'r pwyslais mwyaf ar berfformio.
5. Amcanion dysgu y mae'r disgyblion yn eu hadnabod a'u deall.
6. Tasgau dysgu sy'n briodol i alluoedd ac anghenion y disgyblion.

Asesu a Chofnodi

Mae asesu yn darparu cymhellant i'r disgybl, yn rhoi gwybod i'r athro/athrawes pa mor effeithiol yw eu dysgu, yn darparu gwybodaeth ar gyfer system adrodd yr ysgol ac yn offeryn diagnostig i gynorthwyo datblygu yn y dyfodol.

Cyfle Cyfartal

Mae dysgu nofio yn darparu ar gyfer:

1. Cyfle cyfartal i bob disgybl, gan gydymffurfio ag egwyddorion hawl, integreiddio a gonestrwydd.
2. Cyfleoedd addysgu a dysgu effeithiol i bawb.



Issues of Swimming Teaching

Teaching

To achieve the above aims effective teaching is required and should provide:

1. Fun and pleasure to all pupils,
2. The development of confidence, through active participation, when making full use of the facilities available.
3. A full range of experiences, including propulsion, resistance, flotation, safe water entry, survival skills, basic life saving and games activities.
4. The opportunity for pupil-teacher and pupil-pupil discussion engaging learners in the process of Planning, Performing and Evaluating with the greatest emphasis being on performing.
5. Learning objectives that are known and understood by pupils.
6. Learning tasks appropriate to pupils' abilities and needs.

Assessment and Recording

Assessment provides motivation for the pupil, informs the teacher regarding teaching effectiveness, informs the school reporting system and is a diagnostic tool to aid future development.

Equal Opportunities

Swimming teaching provides for:

1. Equal opportunities for all pupils, observing the principles of entitlement, accessibility, integration and integrity.
2. Effective teaching and learning opportunities for all.



Nofio – Cwricwlwm Cenedlaethol

Cam Sylfaen / Cyfnod Allweddol 1

Nid oes gofyniad statudol i ddysgu nofio yn ystod y Cam Sylfaen /Cyfnod Allweddol 1

Cyfnod Allweddol 2

Dylai disgyblion gael eu dysgu i;

- Ddatblgu sgiliau diogelwch yn y dŵr a goroesi personol.
- Nofio heb gymorth am gyfnod penodol o amser.

Swimming - National Curriculum

Foundation Phase / Key Stage 1

There is no statutory requirement to teach swimming during the foundation Phase / Key Stage 1.

Key Stage 2

Pupils should be taught to;

- Develop skills of water safety and personal survival.
- Swim unaided for a sustained period of time.

Gweithgareddau Iechyd, Ffitrwydd a Lles

Trwy gydol y rhaglen astudio, dylai disgyblion gael y cyfle i;

- Gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol cyson a rheolaidd sydd o fudd i'w hiechyd, ffitrwydd a lles.
- Cynllunio gweithgaredd corfforol dyddiol trwy gyfleoedd yn yr ysgol, y cartref ac yn y gymuned.
- Gweld sut i fwyta ac yfed yn iach, er mwyn cwrdd â gofynion egni gwahanol weithgareddau.
- Gweld sut mae ymarfer yn effeithio ar y corff.
- Cynnal gweithgaredd dros gyfnodau addas o amser mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau **e.e. cerdded am gyfnod byr, rhedeg, seiclo neu nofio am gyfnod hir, ac wrth i'w gwaith ddatblygu.**
- Dilyn rheolau a gweithdrefnau diogelwch perthnasol wrth wneud ymarfer corff, a dechrau deall risg a sut i gymryd cyfrifoldeb am weithredoedd.
- Disgrifio teimladau wrth wneud gwahanol weithgareddau.
- Canfod cyfleoedd yn y gymuned i roi tro ar wahanol weithgareddau.

Health, Fitness and Well Being Activities

Throughout the programme of study pupils should be given the opportunities to;

- Engage in frequent and regular physical activity beneficial to their health, fitness and well being.
- Plan daily physical activity through opportunities in school, at home and in the community.
- Identify how to eat and drink healthily, in order to meet the energy requirements of different activities.
- Find out how exercise affects the body.
- Sustain activity over appropriate periods of time in a range of different activities
e.g. a short walk, a long run, cycle ride or swim and as their work develops
- Follow relevant rules and safety procedures when exercising and begin to understand risk and how to take responsibility for actions.
- Describe how they feel when doing different activities.
- Find out about opportunities in the community to try different activities.

Cyfrifoldebau'r Athro/Athrawes Nofio sy'n gweithio mewn Canolfan Chwaraeon neu Ganolfan Hamdden

- Cynllunio yn ôl Cynllun Gwaith nofio Powys a luniwyd ar ôl ymgynghori â phob carfan ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a Pholisi Nofio'r Sir.
- Cyflwyno gwersi nofio yn unol â'r cynlluniau a gytunwyd.
- Dysgu'n effeithiol.
- Paratoi amserlenni nofio trwy gysylltu ag ysgolion.
- Cefnogi a chynghori'r athrawon y mae'r disgyblion yn eu cwmni.
- Bod yn gyfarwydd ag arferion diogelwch a gweithdrefnau gwersi da a'u cynnal.
- Mewn cysylltiad â Rheolwr y Ganolfan, sicrhau bod cymhorthion nofio ar gael.
- Cefnogi a hyrwyddo partneriaethau nofio.
- Adolygu arferion dysgu a sicrhau eich bod yn gyfarwydd â datblygiadau newydd ym maes dysgu nofio.
- Sicrhau cysylltiad agos ag ysgolion.
- Gwisgo'n addas a chyrraedd yn brydlon i bob gwर्स.
- Ymwneud â threfnu cystadlaethau nofio ar lefel ardal a sir gyda chymorth yr athrawon.

The Responsibilities of the Swimming Teacher based at Sports and Leisure Centres

- To plan accordingly to the Powys Scheme of Work for swimming which has been devised following consultation with all parties and in accordance with the requirements of the National Curriculum and County Swimming Policy.
- To deliver swimming tuition in accordance with agreed planning.
- To teach effectively.
- To prepare swimming timetables through liaison with schools.
- To support and advise accompanying teachers who assist with teaching.
- To identify and maintain good safety practice and lesson procedures.
- In conjunction with the Centre Manager, to maintain provision of swimming aids.
- To support and promote partnerships in swimming.
- To review teaching practices and maintain knowledge of new developments in swimming teaching.
- To maintain close liaison with schools.
- To be well attired and punctual for all lessons.
- To be involved in the organisation of area and county level schools swimming events with the support of teachers.

Cyswilt gydag ysgolion

Mae cysylltu ag ysgolion, h.y. y Pennaeth, y staff a'r athro/athrawes nofio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y dysgu a'r addysgu yn effeithiol. Dylai'r cysylltiad gynnwys materion:

- Diogelwch
- Gweithdrefnau a chynnwys gwersi - darparu cyfarwyddyd i'r Pennaeth / Cydlynnydd Addysg Gorfforol er mwyn i staff yr ysgol fod yn ymwybodol o gynnwys y wers.
- Asesu.
- Iechyd a glanweithdra
- Yr angen i gynyddu gwybodaeth athrawon am nofio ac ymwybyddiaeth ohono er mwyn dysgu mwy am addysgu nofio. Bydd cyrsiau'n cael eu trefnu fel y bo'n briodol.
- Trafodaethau ynghylch amserlenni nofio ysgolion
- Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr athrawon ysgol yn cynorthwyo gyda'r gwersi.
- Os yw'r athro/athrawes nofio neu'r Pennaeth yn canslo'r wers, dylid rhoi cymaint o rybudd ag sy'n bosibl.

Darparu Cymhorthion Nofio

Mae'r athro/athrawes nofio, mewn cysylltiad â Rheolwr y Ganolfan, yn gyfrifol am sicrhau bod cymhorthion nofio ar gael, ar sail ei (h)adnabyddiaeth o'r gwahanol gynhyrchion sydd ar gael, pa mor effeithiol ydynt, a'u haddasrwydd at y diben. Rhaid i bob cymhorthyn hynofedd arddangos nod Safon Brydeinig (BS) 7661 1993.

Liaison with Schools

Liaison with the schools i.e. Headteacher, staff and the swimming teacher is crucial for effective teaching and learning. Liaison should have regard for:

- Safety
- Lesson procedure and content - guidance to be provided to Headteacher / P.E. Co-ordinator in order that school staff are aware of lesson content.
- Assessment.
- Health and hygiene
- The need to increase teacher knowledge and awareness to gain more knowledge about teaching swimming. Courses will be arranged as appropriate.
- Negotiations regarding school swimming timetables.
- Awareness of the importance of accompanying staff assisting with lessons.
- In the event of lesson cancellation by the swimming teacher or Headteacher, the earliest possible notice should be given.

Provision of Swimming Aids

The swimming teacher, in conjunction with the Centre Manager, is responsible for maintaining the provision of swimming aids, based on his/her knowledge of the various products available, their effectiveness and suitability for purpose. All buoyancy aids must display the British Standard (BS) mark 7661 1993.

Gweithdrefnau Diogelwch

- Rhaid i o leiaf ddau oedolyn, ac un ohonynt yn athro/athrawes, fynd yng nghwmni'r ^ disgyblion pan fyddant yn mynd i'r pwll am wersi nofio, a rhaid iddynt aros gyda'r grwp bob amser.
- Rhaid i o leiaf un aelod o staff yr ysgol aros ar ochr y pwll gydol y wers. Os yw ef/hi yn mynd i mewn i'r dwr, rhaid i oedolyn arall oruchwylio.
- Ni chaiff disgyblion fynd at ymyl y pwll nes y bydd yr athro/athrawes nofio yn rhoi caniatâd iddynt wneud.
- Rhaid glynu at y rheolau yn unol â gofynion tîm rheoli'r pwll: (gweler y rhybuddion ar ochr y pwll).
- Rhaid i'r disgyblion ymateb ar unwaith i chwiban neu gyfarwyddiadau gan yr athro/athrawes.
- Rhaid tynnu pob gemwaith (gan gynnwys watsys) ac eithrio breichledi/cadwyni sy'n cynnwys rhybuddion meddygol. Os oes rhywun yn gwisgo stydiau clust yn syth ar ôl cael twll yn ei glust, a'r rheiny'n gorfod aros i mewn am gyfnod penodol (6 wythnos fel arfer), rhaid gorchuddio'r stydiau â thâp micropore neu gyffelyb. Dylid clymu gwallt hir yn ôl, neu wisgo cap nofio
- Mae rhai diwylliannau'n gofyn am wisgo dilledyn arbennig er mwyn cydymffurfio â thraddodiad neu gred grefyddol. Er bod hyn yn cael ei gydnabod, mae'n rhaid ystyried unrhyw oblygiadau iechyd a diogelwch posibl cyn y wers nofio
- Ni chaniateir cnoi fferins na gwm cnoi
- Hysbysir staff a disgyblion ysgol ynghylch y gweithdrefnau argyfwng/ymarferion tân sy'n berthnasol i'r pwll a'r ystafelloedd newid.
- Bydd unrhyw ddisgybl nad yw'n nofio yn gyfrifoldeb staff dysgu yr ysgol . Dylai'r disgyblion nad ydynt yn nofio aros yn yr ysgol, os oes modd iddynt wneud hynny.
- Cyfrifoldeb yr athrawon sydd gyda hwy yw'r plant yn yr ystafelloedd newid.
- Ni fydd y disgyblion yn cael mynd i mewn i'r dwr nes y bydd yr athro/athrawes nofio yn gofyn iddynt wneud hynny.
- Disgwylir i bob disgybl sy'n mynychu gwersi nofio'r ysgol ymddwyn mewn ffordd na fydd yn peryglu eu diogelwch eu hunain na diogelwch pobl eraill, ac nad yw'n achosi aflonyddwch o fewn eu grwp.

Safety Procedures

- At least two adults, one of whom should be a teacher, should accompany a school party attending the pool for swimming lessons and remain with the group at all times.
- A minimum of one member of school staff should remain on poolside for the duration of the lesson. If he/she enters the water, another adult must take over the supervision.
- Pupils can only gain access to poolside on the instruction of the swimming teacher.
- The rules as required by the pool's management team to be adhered to: (see poolside notices).
- Pupils to respond immediately to teacher's whistle or instruction.
- All jewellery (including watches) but with the exception of medical alert bracelets/necklaces should be removed. Newly inserted ear studs, which must remain in place for a specified period of time (normally 6 weeks), must be covered with micropore tape, or similar. Long hair should be securely tied back, or alternatively a swimming cap may be worn.
- Some cultures require the wearing of certain clothing to conform with their religious traditions and beliefs. Whilst this is recognised, consideration must be given to any possible health and safety implications, prior to the swimming lesson.
- The chewing of sweets or gum is not allowed.
- School staff and pupils will be made aware of emergency/fire drill procedures relating to the pool and changing areas.
- Pupils not swimming are the responsibility of the school teaching staff. Wherever possible, pupils who are not swimming should remain at school.
- Pupils in the changing rooms are the responsibility of accompanying teaching staff.
- Pupils enter water only when requested to do so by the swimming teacher.
- All pupils attending school swimming lessons are expected to demonstrate a standard of behaviour that does not jeopardise their own safety or the safety of others and does not cause disruption within their working group.

CYMAREBAU

Rhaid glynu at y cymarebau hyn pan fydd y disgyblion yn y dŵr:

DISGYBLION NAD YDYNT YN NOFIO: CYMHAREB 12:1

Plant ifanc (gan gynnwys plant oed meithrin ac ysgolion cynradd) sy'n cael eu cyflwyno i nofio. Os yw'r nifer yn uwch, rhaid i oedolyn arall helpu'r athro/athrawes. Os felly, rhaid i'r oedolyn weithio dan oruchwyliaeth yr athro/athrawes bob amser, a bod yn gwbl glir o natur a graddau eu rôl.

NOFWYR SY'N GWELLA: CYMHAREB 20:1

Nofwyr o tua'r un gallu â'i gilydd sy'n gallu nofio o leiaf 10 metr yn fedrus a heb gymhorthion ar eu boliau ac ar eu cefnau; argymhellir bod y wers yn cael ei chadw mewn rhan o'r pwll lle nad yw'r dŵr yn rhy ddwfn iddynt.

GRWPIAU GALLU CYMYSG: CYMHAREB 20:1

Disgyblion sy'n amrywio o ran eu gallu o safon nofwyr sy'n gwella i nofwyr medrus, â'r lleiaf medrus /lleiaf hyderus yn eu plith yn gweithio mewn rhan o'r pwll lle na fydd y dŵr yn rhy ddwfn iddynt. Dylid ystyried techneg a stamina'r nofwyr a'u profiad o ddŵr dwfn.

NOFWYR MEDRUS: CYMHAREB 20:1

Y nofwyr hynny sy'n gallu nofio am o leiaf 25 metr yn fedrus a heb gymhorthion ar eu boliau a'u cefnau, ac yn gallu troedio'r dŵr am ddau funud.

Daw'r cymarebau uchod o "SAFE SUPERVISION FOR TEACHING AND COACHING SWIMMING" sy'n cael ei gymeradwyo gan yr Amateur Swimming Association, yr Institute of Sport and Recreation Management, yr Institute of Swimming Teachers and Coaches a'r Royal Lifesaving Authority.

RATIOS

The following ratios must be adhered to whilst pupils are in the water:

NON-SWIMMERS: RATIO 12:1

Classed as young children (including nursery and primary aged children) being introduced to swimming. If more than this number is being taught another adult can be used to help the teacher. If this is the case the adult must always work under the supervision of the teacher and be absolutely clear on the nature and extent of their role.

IMPROVING SWIMMERS: RATIO 20:1

Swimmers of similar ability to each other who can swim at least 10 metres competently and unaided on their front and back; it is recommended that the lesson is confined to an area of the pool where pupils are not out of their depth.

MIXED ABILITY GROUPS: RATIO 20:1

Pupils with a range of ability from improver standard to competent swimmers where the least able and least confident are working in an area of the pool where they are not out of their depth. Swimmers technique, stamina and deep water experience should be considered.

COMPETENT SWIMMERS : RATIO 20:1

Those swimmers who can swim at least 25 metres competently and unaided on the front and back, and can tread water for two minutes.

The above ratios are taken from “ SAFE SUPERVISION FOR TEACHING AND COACHING SWIMMING” endorsed by the Amateur Swimming Association, Institute of Sport and Recreation Management, Institute of Swimming Teachers and Coaches and the Royal Lifesaving Authority.

NOFWYR AG ANABLEDDAU

Bydd ysgolion yn rhoi gwybod i reolwr y ganolfan chwaraeon/hamdden am unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol neu feddygol arbennig a allai effeithio ar ei (g)allu i ddysgu nofio. (Gweler atodiad 1). Wedi derbyn yr hysbysiad yma, bydd yr holl garfanau â diddordeb yn ymgynghori â'i gilydd i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd yn ddiogel.

Bydd pob sefyllfa'n cael ei ystyried ar ei phen ei hun. Rhaid gofalu bod digon o gynorthwyyr eraill (staff ysgol) yn y dwr i sicrhau cymhareb 1:1 i'r rheiny sydd angen y gefnogaeth sy'n ofynnol wrth oruchwylio disgyblion ag amrywiaeth o anabledau.



SWIMMERS WITH DISABILITIES

Schools will inform the Sports/Leisure Centre Manager of any pupil with special educational or medical needs which may impact on his/her ability to undertake swimming. (See appendix 1). Upon receipt of this notification, consultation will take place between all interested parties to ensure the safe participation of all pupils in the activity.

Each situation will be considered independently. Care must be taken to ensure that there are sufficient helpers (school staff) in the water to provide a 1:1 ratio for those needing constant support and a sufficient number of other helpers (school staff) to provide the degree of support demanded by the range of disabilities within the group.

Iechyd a Glendid

- Er mwyn sicrhau diogelwch, argymhellir y dylid diogelu bod 45 munud rhwng yr amser y mae'r disgybl wedi bwyta a'r amser y mae'n mynd i mewn i'r dwr. Dylai staff yr ysgol sicrhau nad yw'r disgyblion yn bwyta creision, fferins, ac ati wrth iddyn nhw deithio i'r pwll nofio.
- Dylid llenwi ffurflen F (atodiad 1) a'i hanfon at reolwr y ganolfan i'w hysbysu ynghylch cyflyrau meddygol, e.e. epilepsi, asthma, problemau â'r glust/problemau clywed, problemau â'r golwg, anhwylderau'r cymalau, nam ar y galon, anhwylderau'r croen, anhwylderau'r gwaed, alergeddau ac anhwylderau ymddygiad.
- Ferwcas: Yn unol ag argymhellion ISRM (yn atodiad 2 ynghlwm) nid oes cyfiawnhad dros eithrio disgyblion â ferwcas rhag nofio a gweithgareddau corfforol eraill. Yn yr un modd, ni ddylid annog defnyddio dyfeisiadau fel sanau ferwca.
- Impetigo: Dylid glynu at y nodyn Cyfarwyddyd Polisi Iechyd a Diogelwch cyfredol a gyhoeddwyd fis Mehefin 2003 (yn atodiad 3 ynghlwm).
- Esgidiau: Rhaid i staff yr ysgol wisgo esgidiau glân a phriodol (h.y. gwadnau gwastad) neu fod yn droednoeth ar ochr y pwll.
- Gwisg nofio: Rhaid i ddisgyblion wisgo dillad nofio addas ar gyfer gwersi nofio'r ysgol h.y. trôns nofio i fechgyn, neu drowsus byr dim is na'r pen-glin, (ond nid trowsus byr denim) a gwisg un-darn i ferched (nid bicinis).
Sylwch: Am resymau glanweithdra, ni fydd yn bosibl i ddisgyblion fenthyg trôns nofio/gwisgoeddd oddi wrth y ganolfan.
- Gogls: Mae' canllawiau ar gyfer gwisgo gogls yn aros yr un fath ag yn y cyngor a roddwyd i'r ysgolion gan y Cyfarwyddwr Addysg yn 1999. Mae copi o'r llythyr hwn a profforma i rieni ei lenwi i'w cael yn atodiad 4 ynghlwm.

Health and Hygiene

- In the interests of safety, it is recommended that 45 minutes should elapse between the time when a pupil has eaten and when he/she enters the water. School teaching staff should ensure that pupils do not eat crisps, sweets, etc while travelling to the swimming pool.
- Medical conditions: e.g. epilepsy, asthma, ear/hearing problems, eyesight problems, joint disorders, heart defects, skin disorders, blood disorders, allergies and behavioural disorders must be notified in writing to the centre manager using form F (appendix 1).
- Verrucas: As per ISRM recommendations (attached as appendix 2) the exclusion of pupils with verrucas from swimming and other physical activities is not justified. Similarly, the use of devices such as verruca socks should be discouraged.
- Impetigo: The current Health & Safety Policy Guidance note issued in June 2003 (attached as appendix 3) should be adhered to.
- Footwear: School teaching staff must wear clean and appropriate (i.e. flat soled) footwear or remain bare footed on pool side.
- Swimming Attire: Pupils must wear suitable swimming attire for school swimming lessons i.e. for boys, swimming trunks or shorts that do not extend over the knee (not denim shorts) and one-piece swimming costumes for girls (not bikinis).
Please note: For reasons of hygiene it will not be possible for pupils to borrow swimming trunks/costumes etc. from the pool.
- Goggles: Guidelines for the wearing of goggles remain as per the advice given to schools by the Director of Education in 1999. A copy of this letter and a parents' consent proforma is attached as appendix 4.

DISGYBLION AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Bydd ysgolion eisoes yn gyfarwydd â natur angen addysgol arbennig y disgybl. Dylid ystyried unrhyw gyfyngiadau neu broblemau sydd gan y disgybl wrth gynllunio a chynnal yr asesiad risg. Gall ymweliadau addysgol olygu bod gan ddisgybl ag AAA anghenion ychwanegol a gall ymddygiad rhai disgyblion fod yn anhydrin.

Fel rhan o'r broses o asesu risg, byddwn yn nodi pa ddisgyblion sydd â risg penodol. O ystyried natur plant yn gyffredinol, eu diffyg profiad, y ffaith na allant ganfod risgiau cystal ag oedolion, a'u brwdfrydedd, bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt bob tro wrth asesu risg. Mae'n bosibl y bydd angen addasu neu newid gweithgareddau neu gyfleusterau penodol i blant ag AAA.

Wrth ystyried anghenion y plant hyn, dylid ystyried y ffactorau a ganlyn:

- **A all y plentyn gymryd rhan yn y gweithgaredd a chael mantais ohono?**

O fis Medi 2002, mae newidiadau i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995) yn golygu bod cyfrifoldeb ar awdurdodau addysg lleol ac ysgolion i beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl am resymau sy'n ymwneud â'u hanableddau. Mae gan AALI ac ysgolion gyfrifoldebau newydd i beidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol na disgyblion nad ydynt yn anabl, a hynny heb gyfiawnhad; ac addasu polisïau ac arferion yr ysgolion yn rhesymol er mwyn sicrhau na fydd disgyblion anabl dan anfantais sylweddol o'i gymharu â disgyblion heb anabledd.

Mae angen i ysgolion sicrhau bod pob ymgais rhesymol ymarferol wedi'i wneud yn ystod y broses o asesu risgiau i gynnwys disgyblion anabl ar ymweliadau addysgol.

Wrth ystyried y mater yma, bydd angen edrych ar fanylion yr ymweliad:

1 **Beth yw safle/lleoliad yr ymweliad, a pha fath o dir sydd yno?**

- A fydd y tir yn achosi problem? Yn fynyddig, yn grêigiog? Oes yna lawer o wreiddiau coed ar wyneb y tir, neu arwynebau anwastad? Ydy'r tir yn garegog neu'n llithrig?
- Ydy'r ymweliad yn cynnwys mynd yn agos at ddwr, lan y môr, ar hyd glannau afon? Oes angen croesi'r dwr?
- Oes yna fannau agored iawn heb ffiniau, neu fawr ddim ffiniau?
- Ydy hi'n hawdd cael mynediad i'r safle a dod allan ohono, e.e. sinemâu, theatr neu amgueddfa fach?
- Ydy'r safle mewn man prysur iawn, neu yn rhywle lle mae llawer o bobl o gwmpas - e.e. canol dinas, amgueddfa fawr neu barc thema?
- Allai'r amgylchedd fod yn niweidiol, e.e. taith i ffatri neu fferm weithio fawr?
- Ydy'r safle'n bell oddi wrth ysbyty, neu a yw signal y ffonau symudol yn wan? Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i ddisgyblion allai fod angen cyrraedd cyfleusterau meddygol yn rhwydd, e.e. os oes gan ddisgyblion epilepsi difrifol .

PUPILS WITH SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS

Schools will already be familiar with the nature of a pupil's special educational need. Any limitations or problems the pupil may have should be taken into account at the planning stage and when carrying out the risk assessment. Educational visits may pose additional difficulties for a pupil with SEN and the behaviour of some pupils may prove challenging.

As part of the risk assessment process, those who are at particular risk will be identified. Given the nature of children generally, their inexperience, reduced risk perception and enthusiasm, they will always need to be given special consideration in a risk assessment. Activities for children with SEN, whose needs are more specific, may need particular alterations, adjustments or facilities.

When looking at the needs of these children the following factors should be taken into consideration:

- **Is the pupil able to take part in and benefit from the activity?**

From September 2002, changes to the Disability Discrimination Act (1995) place new duties on local education authorities and schools not to discriminate against disabled pupils for reasons relating to their disabilities. LEAs and schools are under new duties not to treat disabled pupils less favorably, without justification, than non-disabled pupils; and to make reasonable adjustments to schools' policies and practices to ensure that disabled pupils are not substantially disadvantaged in comparison with pupils without a disability.

Schools need to check that all reasonably practicable efforts have been made during the course of risk assessment to include disabled pupils in educational visits.

When contemplating this question, it will be necessary to look at some specifics of the visit:

1 What is the venue/location of the visit and what is the terrain?

- Will the terrain cause a problem? Is it mountainous, craggy, are there lots of tree roots or uneven surfaces, is it stony and slippery?
- Does the visit include being close to water, the seaside, along a river, does the group need to cross water?
- Are there very open spaces with no or minimal boundaries?
- Is access into and out of the venue restricted, e.g. a cinema, theatre or small museum?
- Is the venue a busy location or heavily populated – e.g. a city centre, large museum or theme park?
- Is the environment potentially hazardous, e.g. a trip to a factory or large working farm?
- Is the venue remote from a hospital, or is mobile phone coverage poor? This may be particularly relevant for pupils who may need easy access to medical facilities, e.g. if a pupil has severe epilepsy.

2 Beth fydd y disgyblion yn ei wneud?

Pa weithgareddau fyddan nhw'n eu gwneud? A oes angen y canlynol arnynt:

- Llauer o gyfarwyddiadau e.e. gweithgareddau anturus ynteu sgiliau crefft?
- Y disgyblion i archwilio'r safle lle gallent fod dan oruchwyliaeth o bell, e.e. mewn safleoedd hanesyddol, teithiau Dug Caeredin, arolygon Daearyddol ac ati
- Y disgyblion yn eistedd am gyfnodau hir, e.e. yn y sinema neu'r theatr
- Cynnwys cyfran helaeth o weithgareddau corfforol, e.e. teithiau cerdded, gweithgareddau antur
- Bod dan reolaeth staff y safle, e.e. yn ystod gweithgareddau antur, mewn amgueddfa, neu ar lwybrau cerdded cefn gwlad dan arweinyddiaeth warden?

3 Sut fydd eu hangen/anghenion penodol yn effeithio ar eu gallu i gyflawni'r gweithgaredd?

Mae sawl agwedd ar anabledd, sy'n gysylltiedig ag anableddau corfforol, meddygol neu ddysgu y gallai fod angen ei gynnwys wrth gynllunio Ymweliad Addysgol.

Mae angen ystyried y meysydd canlynol.

- Corfforol: A oes gan y disgybl rhyw anabledd corfforol a allai effeithio ar ei allu neu ei hyder i gyflawni'r gweithgareddau?
- Symudedd: A oes gan y disgybl anhawster â symudedd sy'n golygu bod angen cymorth naill ai cyfarpar neu staff arno?
- Dehurwydd: A oes gan y disgybl anawsterau â sgiliau echddygol manwl a allai effeithio ar ei allu i ymdopi â gweithgareddau?
- Synhwyraidd: A oes gan y disgybl nam neu ddiffyg yn un neu fwy o'i synhwyrau - golwg, clyw, arogl, lleferydd neu gyffyrddiad?
- Cyfathrebu: A oes gan y disgybl anhawster â chyfathrebu oherwydd anabledd synhwyraidd, corfforol neu ddysgu?
- Lleferydd ac Iaith: A yw'r disgybl yn deall cyfarwyddiadau a cheisiadau y mae hyfforddwr/arweinydd gweithgareddau yn ei wneud?
- Canolbwytio: A oes gan y disgybl gyfnod canolbwytio byr, neu duedd i fod yn ddiffygiol o ran sylw?
- Amynedd: A fyddai disgybl yn ei chael hi'n anodd aros ei dro, neu eistedd yn dawel yn ystod agwedd o'r ymweliad na fyddent yn ei fwynhau?
- Rhyngweithio: A yw'r disgybl yn ei chael hi'n anodd rhyngweithio â phobl nad ydynt yn gyfarwydd â hwy?
- Dychymyg: Lle byddai gweithgaredd yn gofyn bod disgybl yn defnyddio'i ddychymyg, a fyddai ganddo anhawster â hyn, e.e. ailgreadau hanesyddol?
- Emosiynol: A yw ymateb emosiynol y disgybl mor wahanol i'r hyn a ddisgwyliid yn sgîl ei oed, ei ddiwylliant neu'r arferion ethnig perthnasol fel bod ei ymateb yn effeithio ar berfformiad addysgol, gan gynnwys meysydd academiaidd, cymdeithasol, galwedigaethol a/neu bersonol/cymdeithasol?
- Ymddygiadol: A yw ymddygiad y plentyn y cyfryw na fyddai disgwyl gweld ymddygiad o'r fath mewn disgybl na fyddai ganddo anabledd ymddygiadol?
- Anghenion Dysgu: A oes gan y disgybl anhawster dysgu penodol neu gyffredinol?
- Meddygol: A oes gan y disgybl unrhyw gyflwr meddygol y gallai ymarfer dwys, newid trefn neu brofiadau anarferol effeithio arno, e.e. diabetes neu epilepsi. A yw lles y disgybl yn dibynnu ar feddyginiaeth? A fydd ei gyflwr yn dirywio os na roddir y feddyginiaeth iddo ar yr adegau cywir?

2 What are they going to do?

What activities are they going to be undertaking? Do they require:

- A high level of instruction, e.g. adventurous activities or craft skills?
- The pupils to be exploring where they may be under remote supervision, e.g. at historical sites, Duke of Edinburgh type trips, Geography surveys
- Pupils to be sitting still for long periods of time, e.g. at a cinema or theatre
- Inclusion of a large proportion of physical activities, e.g. walks, adventure activities
- To be under the control of staff of the venue, e.g. during adventurous activities, at a museum, or on warden lead countryside walks?

3 How will their specific need(s) impact on their ability to undertake the activity?

There are many aspects of disability, whether they are related to a physical, medical or learning disability that may need to be included in the planning of an Educational Visit.

The following areas need consideration.

- Physical: Does the pupil have some physical disability that may impact on their ability or confidence to undertake activities?
- Mobility: Does the pupil have difficulty with mobility that requires the assistance of either equipment or staff ?
- Dexterity: Does the pupil have difficulties with fine motor skills that may impact on an activity?
- Sensory: Does the pupil have reduction in or loss of one or more of the senses – sight, hearing, smell, speech or touch?
- Communication: Does the pupil have difficulty with communication either because of a sensory disability, physical or learning disability?
- Speech & Language: Does the pupil understand instructions and requests made by an instructor/activity leader?
- Concentration: Does the pupil have a reduced attention span or a tendency towards deficient attention?
- Patience: Would a pupil have difficulty waiting their turn, or sitting calmly through an aspect of the visit that they did not gain enjoyment from?
- Interaction: Does the pupil have difficulty interacting with people they are not familiar with?
- Imagination: If the activity required a pupil to use their imagination, would they have difficulty with this, e.g. partaking in historical re-enactments?
- Emotional: Is the pupil's emotional response so different from appropriate age, cultural, or ethnic norms that the responses adversely affect educational performance, including academic, social, vocational, and/or personal/social areas?
- Behavioural: Does the child's behaviour manifest itself in a manner which would not be expected from a pupil that did not have a behavioural disability?
- Learning Need: Does the pupil have a specific or general learning difficulty?
- Medical: Does the pupil have any medical need that could be affected by strenuous exercise, changes to routine or unusual experiences, e.g. diabetes or epilepsy. Is the pupil's well-being reliant on medication? Will their condition deteriorate if medication is not administered at set times?

- **A oes modd addasu'r gweithgaredd i ganiatáu i ddisgybl gymryd rhan ynddo?**

Os nad yw'r gweithgaredd, fel y cynlluniwyd ef yn wreiddiol yn briodol i ddisgybl(ion), yna dylai'r ysgol geisio newid y gweithgaredd fel ei fod yn addas ar gyfer yr holl ddisgyblion. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid ceisio trefnu dewis arall yn lle'r elfen benodol o'r ymweliad nad yw'r disgybl anabl yn gallu cymryd rhan ynddo. Dylid ystyried y trefniant amgen yma dim ond fel dewis olaf, a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau y byddai'r holl ddisgyblion yn gallu cyflawni'r un gweithgareddau. Lle cynigir dewis arall, rhaid trafod hyn â rhieni'r disgybl, a chynnwys unrhyw ddarparwr gweithgareddau cyn yr ymweliad.

Os nad yw'n bosibl newid yr ymweliad na darparu gweithgaredd amgen yn lle elfen benodol o ymweliad, ac os na themlir bod unrhyw ddewis arall ond eithrio disgybl rhag cymryd rhan yn yr ymweliad, rhaid dogfennu'r penderfyniad yn dda. Rhaid i'r ddogfennaeth ddangos y prosesau a ddilynwyd i geisio dod o hyd i ddewisiadau eraill, a dangos bod y sefyllfa wedi'i thrafod yn llawn â rhieni'r disgybl.

- **A fydd angen cyfarpar ychwanegol?**

Os oes gan y disgybl anabledd corfforol, rhaid trafod gweithgareddau anturus â'r darparwr cyn bwcio'r ymweliad, er mwyn iddynt sicrhau bod y cyfarpar priodol ganddynt. Os oes gofyn eistedd neu sefyll am gyfnodau hir, neu ymarfer dwys, fe allai fod angen ymgynghori â Therapydd Galwedigaethol a/neu ffisiotherapydd y disgybl hefyd. Mae'n bosibl y byddai disgybl sy'n gallu symud yn gymharol rwydd o amgylch amgylchedd yr ysgol angen cymorth e.e. cadair olwyn, dan rai amgylchiadau.

- **A yw'r disgybl yn gallu deall a dilyn cyfarwyddiadau?**

Bydd rhai gweithgareddau'n rhoi mwy o bwyslais ar allu'r disgybl i wrando, i ddeall ac i weithredu ar gyfarwyddiadau, e.e. gweithgareddau anturus, ac ymweliadau ag amgueddfeydd ymarferol. Yn achos gweithgareddau anturus, mae'n bosibl bod angen i'r disgybl allu gweithredu mewn ymateb i gyfarwyddiadau pan na fydd mewn cysylltiad uniongyrchol â goruchwyliwr (e.e. disgybl yn dringo creigiau gyda goruchwylwyr uwchlaw ac islaw ond nid ochr yn ochr ag ef) er mwyn gallu cymryd rhan. Yn yr achos yma, byddai'n hanfodol bod y disgybl yn gallu gweithredu ar y cyfarwyddiadau a roddir.

- **A fydd angen gofal neu oruchwyliaeth ychwanegol?**

Gellir datrys rhai o'r problemau a godwyd uchod os darperir cefnogaeth 1:1. Os yw'r ddarpariaeth hon ar gael i'r disgybl yn yr ysgol, yna mae'n debyg y byddai o fudd pe gallai'r un unigolyn ddod gyda'r disgybl ar yr ymweliad. Mewn ambell achos, mae'n bosibl mai rhiant y disgybl fydd yn dod gydag ef/hi, yn enwedig os oes ganddo/ganddi anghenion meddygol cymhleth, er nad yw hyn yn gwbl hanfodol, a gallai'r disgybl ennill mwy o'r profiad pe na byddai'r rhiant yn bresennol.

Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn mae'n bwysig edrych ar y darlun cyfan, ac nid ar bob mater ar ei ben ei hun, e.e. mae gan ymweliad â glan y môr wahanol risgiau i ymweliad â glan y môr i hwylyfyrddio.

- **Can the activity be adapted to enable the pupil to participate?**

If the activity, as originally planned, is not appropriate for a pupil(s), then the school should look at changing the activity to suit all pupils. If this is not feasible, an alternative for the particular element of the visit that the pupil is not able to partake in should be arranged/offered. This alternative arrangement should only be considered as a last resort and all attempts should be made to ensure that all pupils could undertake the same activity. Where an alternative is proposed, this must be discussed with the pupil's parents, the pupil, and any activity provider involved, prior to the visit.

If it is neither possible to alter the visit nor provide an alternative activity for a particular element, and it is felt that there is no other alternative but to exclude a pupil from a visit, this decision must be well documented. This documentation must show the processes that have been undertaken to try to find alternatives and that the situation has been discussed fully with the pupil's parents.

- **Will additional equipment be required?**

If the pupil has a physical disability, adventurous activities must be discussed with the provider prior to booking the visit in order for them to ensure they have the appropriate equipment. If the activity requires long periods of sitting or standing or strenuous activity it may also be necessary to consult with the pupil's Occupational Therapist and/or physiotherapist. It may be that a pupil, who is usually mobile around the school environment, would require the assistance of e.g. a wheelchair in certain situations.

- **Is the pupil able to understand and follow instructions?**

